**Dyddiad cyhoeddi:** 07 Chwefror 2019

# Gwastraff a phlastig ar wasanaethau TrC

Rwy'n ysgrifennu mewn ymateb i'ch cais Rhyddid Gwybodaeth ar wasanaethau gwastraff a phlastig ar wasanaethau TrC.

Fe wnaethoch chi ofyn:

- **Sawl tunnell o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu ar wasanaethau TrC bob blwyddyn?**
- **O hyn, faint sy'n cael ei ailgylchu?**
- **Pa ganran o'r nwyddau a werthir ar wasanaethau TrC sydd wedi'u pecynnu naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn plastig untro?**
- **Faint o elw Mae TrC yn ei wneud o werthu nwyddau ar ei wasanaethau (heb gynnwys tocynnau)**

**Dylech hefyd gynnwys unrhyw wybodaeth arall sydd ar gael a fyddai yn eich tyb chi'n berthnasol i'r cwestiynau hyn.**

Mae data a ddarparwyd gan gyflenwr rheoli gwastraff Gwasanaethau Rheilffordd TrC, Biffa, yn nodi, ar gyfer y cyfnod 1 Tachwedd 2017 i 31 Hydref 2018, bod gwasanaethau TrC wedi cynhyrchu 1352 tunnell o wastraff. Mae'r holl ddata cyn 13 Hydref 2018 yn ymwneud â Threnau Arriva Cymru.

Y gyfradd ailgylchu gyfartalog dros y cyfnod oedd 25%, gyda gwaredu gwastraff i ynni yn 38%.

Ar hyn o bryd, nid oes gennym y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar ganran y nwyddau a werthir ar wasanaethau TrC sydd wedi'u pecynnu naill ai'n rhannol neu'n gyfan gwbl mewn plastig untro.

Mae gwerthu nwyddau a gwasanaethau ar y trenau yn wasanaeth a gontractir allan a reolir gan Rail Gourmet sy'n gost net i Wasanaethau Rheilffordd TrC.

Cofion gorau

Jeremy Morgan